DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mercher 2 Mehefin 2010

YR EISTEDDFOD YN TORRI TIR TECHNOLEGOL NEWYDD

O dderbyn canlyniadau rhagbrofion ar decst, i gael cân Eisteddfod Ceredigion yn canu ar ffôn symudol, i bodledu yn ddyddiol o'r Maes, mae Urdd Gobaith Cymru wedi bod ar flaen y gad yn dechnolegol ers blynyddoedd, ac mae'r datblygiadau digidol a chyfryngol yn parhau yn yr Eisteddfod eleni.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn ddigwyddiad o bwys yng nghalendr darlledu Cymru – ers blynyddoedd dyma un o ddigwyddiadau darlledu allanol mwyaf Prydain gyfan. Eleni, mae datblygiadau technolegol, offer, a gwe ddarlledu wedi agor drysau newydd i'r Urdd a sefydliadau eraill.

Un o brif bartneriaid yr Urdd yw Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac eleni, ynghyd â noddi seremoni'r Fedal Ddrama heddiw, mae'r Brifysgol wedi bod yn gwe ddarlledu rhaglen gylchgrawn am awr o'r Maes bob dydd am 3 o'r gloch a gellir ei gweld ar wefan yr Urdd a Golwg 360.

Meddai Dr Medwin Hughes, Is-Ganghellor:

"Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn dod â Phrifysgolion Llambed a'r Drindod ynghyd i greu endid newydd i wasanaethu cymunedau Cymru. Y mae cysylltiad y Brifysgol â mudiadau megis yr Urdd yn holl bwysig i'w datblygiad er mwyn sicrhau fod yr addysg a hyfforddiant a gynigir yn galluogi ieuenctid Cymru i wireddu eu potensial a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach ym meysydd ieuenctid a

Yn naturiol, mae holl dalent a chyffro llwyfan yr Eisteddfod yn cael ei we ddarlledu ar wefan yr Urdd ac S4C ac fe fydd gwefan cynhwysfawr gyda'r BBC hefyd, ynghyd â holl raglenni arferol yr Eisteddfod ar S4C.

Mae S4C wedi bod yn darlledu yn fyw ar S4C1 a 'Sedd yn y Pafiliwn' ar S4C2 ers sawl blwyddyn. Ond eleni, mae S4C yn gwe ddarlledu 'Sedd yn y Pafiliwn' yn y Gymraeg a hefyd gyda sylwebaeth Saesneg am y tro cyntaf.

Meddai Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau:

"Mae'n ddatblygiad pwysig i'w groesawu wrth gofio bod traean o aelodau'r Urdd yn ddysgwyr. Ein gobaith yw y byddwn yn datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol i ieithoedd eraill – ac yn naturiol, mae'r dechnoleg yn ein caniatáu i gyflawni hynny."

Bellach mae Cymru gyfan wedi troi yn ddigidol, ac Eisteddfod yr Urdd ydy'r digwyddiad cenedlaethol mawr cyntaf ers y newid hwnnw. Mae darpariaeth yr ŵyl yn cael ei ddarlledu ar sianel newydd S4C sef Clirlun, a dyma'r digwyddiad cenedlaethol cyntaf i gael ei ddarlledu ar Clirlun sydd ar gael ar hyn o bryd ar Freeview.

Meddai Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Comisiynu S4C, “Mae S4C Clirlun yn wasanaeth cyffrous newydd sy’n cynnig lluniau o’r safon dechnolegol gorau posib ar blatfform Freeview HD. Mae’n briodol mai Eisteddfod yr Urdd fydd y digwyddiad byw cyntaf ar y Sianel newydd. Fe fydd modd i wylwyr S4C Clirlun nawr fwynhau’n doniau ifanc gorau gyda chymorth y dechnoleg orau.”

Cynyddu hefyd mae’r defnydd o’r gwasanaeth canlyniadau tecstio mewn partneriaeth gyda S4C. Gall unrhyw un gofrestru ar gyfer cystadleuaeth benodol, a derbyn tecst yn rhoi canlyniad y rhagbrawf ac yna’r canlyniad ar y llwyfan. Y rhif i’w gofio yw 66663.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd ar 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae’r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae’r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda’r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

DRAFT PRESS RELEASE
Wednesday 2 June 2010

THE EISTEDDFOD BREAKING NEW TECHNOLOGICAL GROUND

From receiving Eisteddfod results by text, using the Eisteddfod Ceredigion song as a ringtone on your mobile phone, to receiving daily podcasts from the Maes, Urdd Gobaith Cymru has been one step ahead for years in terms of its technology, and the digital and media developments continues at the Eisteddfod this year.

Eisteddfod yr Urdd is a very important event in Wales’ broadcasting calendar - this has been one of the biggest external broadcasting events in Britain for years. This year, the technical developments, equipment, and online broadcasting has opened new doors for the Urdd and other establishments.

One of the Urdd’s main partners is The University of Wales Trinity Saint David, and this year, the University has been broadcasting a magazine program online for an hour each day from the Maes at 3:00pm, which can be seen on the Urdd’s website and Golwg 360. The University is also sponsoring the Drama Medal ceremony today.

Dr Medwin Hughes, Vice-Chancellor says:

“The University of Wales Trinity Saint David brings the University of Lampeter and Trinity College together to create a new entity to the serve the communities of Wales. The link between the University and organisations such as the Urdd is vital to it’s development, to ensure that the education and training offered enables Wales’ youngsters to fulfil their potential, through the medium of Welsh. We look forward to further collaboration within the youth and community sectors, the performing arts and outdoor education.”

Naturally, the talent and excitement from the stage is broadcast online on the Urdd and S4C’s website; and the BBC will also have a comprehensive website, as well as the usual Eisteddfod programmes on S4C.

S4C have been broadcasting live on S4C1 and ‘Sedd yn y Pafiliwn’ (a seat in the pavilion) on S4C2 for many years. But this year, S4C are broadcasting ‘Sedd y Pafiliwn’ online in Welsh and for the first time with English commentary.

Aled Siôn, Urdd Gobaith Cymru’s Director of the Eisteddfod and the Arts says:

“We welcome this important development as a third of the Urdd’s members are learners. Our hope is that we will develop the service in the future to other languages – and naturally, technology allows us to accomplish this.”

By now the Wales as a nation has turned digital, and Eisteddfod yr Urdd is the biggest event to take place since this change. The festival’s provision is broadcasted on S4C’s new channel, ‘Clirlun’, and this is the first national event to be broadcasted on ‘Clirlun’ which is now available on Freeview.

Rhian Gibson, S4C Director of Commissioning, said, “S4C Clirlun is an exciting new service offering pictures of the highest possible technological standard on the Freeview HD platform. It’s appropriate that the Urdd Eisteddfod is the first live event on the new channel. It will be possible for S4C Clirlun viewers to enjoy some of our best young talent with the aid of the best technology.”

Use of the texting results service in partnership with S4C is also increasing. Anyone can register for a particular competition, and receive a text reporting the preliminary result, followed later by the stage result. The number to remember is 66663.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd ar 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organization.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.